Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Twm O'r Nant
## Ffordd Rhyl
## Dinbych
## LL16 3DP

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Twm O'r Nant

Mae Ysgol Gynradd Twm o’r Nant yn nhre Dinbych, Sir Ddinbych ac yn gwasanaethu’r dref a nifer o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae 304 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 40 oed meithrin, rhan-amser. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gefndiroedd ethnig. Caiff y disgyblion eu haddysgu gan 9 athro amser llawn ac 8 rhan amser mewn 12 dosbarth.

Mae cyfran cyfartalog y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf tua 4% sydd yn sylweddol is na’r ganran genedlaethol. Tua 62% o’r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg gartref. Mae’r ysgol wedi adnabod tua 17% o’i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na’r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd yn Medi 2016 ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol cryf sy'n canolbwyntio'n glir ar les a safonau disgyblion. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ac mae hyn i'w weld yn amlwg o gwmpas yr ysgol. Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r modd y mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd.

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar. Mae safonau lles ac agwedd tuag at ddysgu bron pob disgybl yn ardderchog. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn; maent yn hynod gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodweddiadol o'r gydberthynas adeiladol a chefnogol sy'n bodoli ar draws cymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod llawer yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella cyflwyniad gwaith y disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae llawer y disgyblion yn meddu ar fedrau cyfathrebu Cymraeg lled isel. Lleiafrif ohonynt sy'n cychwyn gyda medrau mathemategol yn uwch na, neu'n debyg i'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yno, mae bron pob disgybl gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod llawer yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn. Mae bron pob disgybl sy'n dod o gartrefi lle nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da iawn yn fuan. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n ddysgwyr cydwybodol a hyderus gyda medrau gweithio'n annibynnol uchel iawn. Mae hyn yn gryfder nodedig ar draws yr ysgol.

Mae medrau llafar a gwrando bron pob disgybl yn gadarn iawn. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, ac yn ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn aeddfed iawn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod eang o eirfa goeth mewn amrywiol sefyllfaoedd o oed cynnar, er enghraifft wrth gymryd rhan yn eisteddfod 'Gwlad y Rwla'. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu mewn modd hynod aeddfed yn y Gymraeg a Saesneg gan fynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn effeithiol a chlir mewn brawddegau estynedig. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn trosglwyddo'n hynod fedrus o un iaith i'r llall yn gwbl ddidrafferth.

Mae medrau darllen cynnar bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd, pan fo angen. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn rhugl a chywir. Mae llawer yn dechrau darllen gyda mynegiant ac ystyr priodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith ac yn ymateb yn dda i lyfrau ffuglen a ffeithiol. Gwnânt ddefnydd da iawn o'u medrau i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth am bencampwyr Cymru.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r ffordd y mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n annibynnol i safon uchel at wahanol bwrpasau ac mewn ystod eang o bynciau a chyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn ysgrifennu adolygiad o'r llyfr 'Storm Strempan' a cherddi acrostig yn gelfydd iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn ysgrifennu brawddegau cymhleth, yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol ac yn dangos gafael gadarn ar ffurf a dilyniant, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Defnyddiant eu medrau yn greadigol iawn wrth ysgrifennu adolygiad o'r llyfr 'Kensuke's Kingdom' gan ddangos ymwybyddiaeth bwrpasol o'r gynulleidfa. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflwyno'u gwaith yn daclus iawn.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn hynod gadarn. Mae rhan fwyaf yn datrys problemau rhif yn llwyddiannus, ac yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym, gan gymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu'n flaenorol yn fedrus mewn sefyllfaoedd

newydd. Enghraifft nodedig yw'r ffordd hyderus mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn casglu data o'u hoff gymeriad o storïau Gwlad y Rwla a dehongli eu canfyddiadau ar ffurf tabl yn briodol gan gyflwyno'u gwaith ar ffurf graff yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau yn annibynnol, er enghraifft wrth ddewis yr arian cywir i brynu tusw o wahanol flodau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft i ddarganfod pa gytundeb ffôn symudol sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Mae disgyblion hŷn yn darllen map arolwg ordnans a defnyddio eu medrau lluosi yn fedrus iawn, er enghraifft i ddarganfod pellter taith, a'r amser a gymerwyd gan brotestwyr Capel Celyn o wahanol ganolfannau ar y ffordd i Lerpwl.

Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ardderchog i wahanol ddibenion. Yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft, maent yn defnyddio meddalwedd yn bwrpasol a hyderus i gasglu data am bryniant bwyd i de parti fel rhan o waith ar thema Rala Rwdins. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu sylwebaeth ddiddorol ar ffurf clip fideo o gêm pêl-droed wedi ei hanimeiddio. Maent yn creu, dadansoddi a dehongli cronfa ddata ddiddorol wrth edrych ar wneuthuriad tai yn nhref Dinbych. Mae medrau codio y disgyblion hŷn yn datblygu'n dda iawn wrth iddynt greu baneri cymhleth o wahanol wledydd. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn ar draws yr ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn yn y gwersi ac yn ystod amser egwyl. Maent yn hynod gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodweddiadol o'r gydberthynas adeiladol a chefnogol sy'n bodoli ar draws cymuned yr ysgol. Cefnogir hyn gan y pwyslais amlwg sydd ar ddatblygu parch ar draws yr ysgol trwy gyfrwng dulliau fel dwylo caredig. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt yn brydlon.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, ac yn ymateb yn dda iawn i'r ethos gofalgar a chynhwysol sy'n rhan annatod a hynod effeithiol o fywyd yr ysgol. Maent yn frwdfrydig mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau.

Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac yn dangos lefel uchel o aeddfedrwydd a pharch at farn eraill. Mae'r defnydd effeithiol iawn o dechnegau meddylfryd o dŵf, fel partneriaid parablu, yn galluogi'r disgyblion i gefnogi dysgu ei gilydd yn hynod effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus a hyderus iawn. Maent bob amser yn barod i ddysgu, ac yn arddangos lefel arbennig o annibyniaeth.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at lwybrau dysgu dilynol ac yn mynegi barn am y gweithgareddau yr hoffent eu gwneud yn yr ardaloedd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn dewis targedau'n annibynnol ac yn herio eu dysgu eu hunain er mwyn pennu cyfeiriad dysgu clir. O oed cynnar, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd eang i leisio barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cyflawni hyn drwy wahanol bwyllgorau fel y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Mae'r 'Dewiniaid Digidol ' yn gweithio'n effeithiol iawn wrth addysgu a chefnogi disgyblion eraill a staff ar draws yr ysgol, er enghraifft trwy baratoi cyflwyniad i'r disgyblion ieuengaf ar bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar lein.

Mae bron pob disgybl yn falch o'u diwylliant Cymreig a'u Cymreictod. Mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn hollol naturiol gyda'u cyfoedion ac yn deall mantais bod yn gwbl ddwyieithog yn eu bywydau pob dydd. Trwy amrediad cyfoethog o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, maent yn cyfranogi'n llawn yn y diwylliant lleol ac yn ehangach. Mae gwaith blaenllaw'r 'Dreigiau Iaith' wrth hybu ac adolygu cynnydd tuag at y siarter iaith wedi cael effaith arwyddocaol ar ymdeimlad y disgyblion o'u Cymreictod.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth am fwyta ac yfed yn iach. Maent yn ymateb yn dda iawn trwy gyfranogi yn yr amrywiaeth eang o weithgarwch corfforol sydd yn cael ei gynnig yn ystod amser egwyl neu mewn clybiau ar ôl ysgol.

Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, mae disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned. Maent yn barod i godi arian tuag at elusennau ac achosion da. Mae hyn yn eu galluogi i sylweddoli nad yw pawb mor ffodus â nhw.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn hynod effeithiol. Mae'r cynlluniau wedi eu seilio ar ffurf themâu cyffrous sydd yn ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus. O'r cychwyn cyntaf, mae pwyslais ar gynllunio gweithgareddau sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu gwydnwch a dyfalbarhad wrth gyflawni eu gwaith. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru, ac fe welir ffrwyth eu llafur yn barod ar waith.

Mae'r cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn effeithiol a chynhwysfawr iawn. Maent yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion gymhwyso eu medrau trwy weithgareddau diddorol ar draws pynciau'r cwricwlwm a'r meysydd dysgu. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu creadigrwydd y disgyblion yn gryfder arbennig, ac o ganlyniad, mae ansawdd y gwaith celf o gwmpas yr ysgol yn ardderchog. Mae'r ardal allanol yn y cyfnod sylfaen i symbylu'r disgyblion i gydweithio yn adnodd o ansawdd uchel iawn.

Un o gryfderau amlwg y gweithdrefnau cynllunio yw'r modd y maent yn adeiladu'n gelfydd ar waith blaenorol ac yn sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau dysgu annibynnol y disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O'r cychwyn, mae staff yn herio'r disgyblion i weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r tasgau herio yn parhau, â'r disgyblion yn raddol cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddewis lefel yr her y maent am ei chwblhau yn eu gweithgareddau. O ganlyniad i'r trefniadau hynod effeithiol hyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus iawn.

Mae cynnwys llais y disgybl yn rhan annatod o’r cynllunio ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt roi cyfeiriad i’r hyn yr hoffent ei ddysgu. Mae hyn yn llwyddo i sicrhau eu hymrwymiad i’w gwaith yn effeithiol iawn.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthynas waith dda iawn gyda’r disgyblion sy’n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol ac ysgogol gan sicrhau bod disgyblion yn cyflawni’n dda. Mae cyflymder gwersi yn nodwedd gref ac mae athrawon yn defnyddio ystod goeth o ddulliau i ddatblygu medrau’r disgyblion. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o bob plentyn ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a’u cwestiynau yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl yn ymroi’n llwyr i’r tasgau â chymhelliant, ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, ac yn gweithio’n annibynnol. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn gweithio’n hynod effeithiol fel tîm ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at eu medrau llafar cyfoethog.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu’n gadarn drwy’r ysgol. Rhoddir adborth adeiladol llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a’u cyfoedion ac i gyfrannu’n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer gwella’u gwaith. Mae’r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu’n llwyddiannus at gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r Gymraeg a Cymreictod yn effeithiol iawn. Mae staff yn modelu iaith lafar raenus sy’n cael dylanwad cadarnhaol iawn ar fedrau llafar y disgyblion. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu’n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio’n effeithiol iawn i ddatblygu cwricwlwm sy’n seiliedig ar Gymru a’r etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o’u hardal leol, eu hanes a’u diwylliant, er enghraifft wrth gynnal seremoni cadeirio yn eisteddfod awyr agored ‘Gwlad y Rwla’.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar sy’n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da yn llwyddiannus. Mae athrawon a chymorthyddion yn sicrhau bod y disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd neu anawsterau cymdeithasol yn cael cefnogaeth o ansawdd effeithiol iawn. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu’n dda iawn â’u dysgu. O ganlyniad, maent yn magu hyder ac yn deall pwysigrwydd rhannu pryderon.

Mae’r staff yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn arbennig o dda ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol iawn â nhw. Caiff rhieni wybodaeth gyson am ddatblygiadau a digwyddiadau o fewn yr ysgol, ac mae adroddiadau am gynnydd eu plant yn nodi eu cyraeddiadau yn glir. O ganlyniad, mae gan rieni ddealltwriaeth dda o gynnydd a safonau eu plant.

Wrth weithredu sesiynau amser cylch a chyfnodau myfyrio, mae’r ysgol yn gweithredu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr. Mae’r agwedd hon yn cael sylw cyson a thrylwyr ar draws y cwricwlwm. Mae’r traddodiad o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chystadlu mewn eisteddfodau yn hybu diwylliant Cymreig yn llwyddiannus. Mae’r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ddatblygu eu medrau

creadigol a chelfyddydau mynegiannol yn nodwedd arbennig. Mae’r gwasanaethau boreol hefyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda iawn. Mae’r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau gwahanol yn effeithiol drwy noddi, er enghraifft, plentyn yn Paraguay. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn dathlu gwahaniaethau ac yn parchu amrywiaeth yn aeddfed iawn. Mae hyn yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion hyderus, annibynnol ac aeddfed y dyfodol.

Mae’r sylw a roddir i ystyried llais y disgybl yn cyfrannu'n effeithiol iawn at gyfoethogi cyfleoedd i'r disgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau. Mae hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn hynod effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae staff yn annog y disgyblion i gymryd rhan reolaidd yn y clybiau allgyrsiol a ddarperir iddynt. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd byw yn iach ac yn dylanwadu ar eu cyfoedion yn hynod lwyddiannus trwy eu hannog i wneud dewisiadau doeth.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Mae athrawon yn defnyddio amrediad o weithdrefnau manwl i adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd, rhifedd a lles. Mae’r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion hyn yn fanwl ac yn nodi camau datblygiad mesuradwy. Defnyddir cymorthyddion dysgu ac athrawon arbenigol yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i roi cefnogaeth addysgol i ddisgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth iddynt. Trwy wneud hyn, mae’r disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn yn holl weithgareddau dysgu ac allgyrsiol yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hynod effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn galluogi staff i osod targedau gwella heriol ar eu cyfer ac adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae’r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae’r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol cryf sy’n canolbwyntio’n glir ar les a safonau disgyblion. Mae wedi datblygu systemau effeithiol iawn sy’n cynorthwyo arweinwyr yr adrannau a staff i fodloni’r targedau uchelgeisiol y mae wedi eu gosod. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel sydd i’w weld yn amlwg o gwmpas yr ysgol, ac mae ganddo wybodaeth gadarn iawn am safonau addysgu a dysgu. Enghraifft ardderchog o hyn yw effeithiolrwydd arweinwyr yr adrannau sy’n hybu pawb i gydweithio’n effeithiol fel tîm ac sy’n cyfarfod yn rheolaidd mewn grwpiau amrywiol i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r ysgol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd disgyblion, sy’n sicrhau bod yr holl athrawon yn atebol am ansawdd y ddarpariaeth a’r safonau a gyflawnir yn eu dosbarthiadau. O ganlyniad, mae athrawon yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda, ac mae hyn yn arwain at safonau a lles uchel ar draws yr ysgol.

Mae’r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda iawn.  Maent yn wybodus tu hwnt am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill, ac maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn feddylgar iawn i osod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella. Mae’r arweinwyr yn defnyddio arbenigedd aelodau’r corff llywodraethol yn fedrus i gyfoethogi profiadau’r disgyblion ac i gefnogi a herio’r pennaeth a’r staff pan fo’n briodol gwneud hynny.  Maent yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd, ac mae hyn yn rhoi trosolwg ardderchog iddynt o gryfderau’r ysgol ac unrhyw feysydd i’w gwella.

Mae’r gweithdrefnau hunanwerthuso yn fanwl iawn, ac yn rhoi ffocws clir ar agweddau penodol i’w gwella.  Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at gynnal a gwella ymhellach y safonau da a welir.  Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon fyfyrio ar eu harfer ynghyd ag unrhyw dargedau sy’n deillio o’r weithdrefn hunanwerthuso.  Mae cyswllt clir rhwng deilliannau’r gweithdrefnau hyn a’r cynlluniau gwella.  Mae’r ysgol yn adnabod y blaenoriaethau cywir i’w gwella, ac mae ganddi hanes cadarn o sicrhau gwelliant a datblygu’r ysgol yn ganolfan ddysgu lwyddiannus.  Er enghraifft, mae’r gwaith i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog wedi arwain at safonau uchel iawn.

Nodwedd ragorol ar yr arweinyddiaeth yw’r cyfleoedd cyfoethog a gynigir i staff ddatblygu’n broffesiynol.  Mae’r prosiect asesu ar gyfer dysgu, gyda rhwydwaith o ysgolion eraill, yn darparu cyfleoedd hylaw a chyffrous i staff ymchwilio a myfyrio ar effaith defnyddio gwahanol dechnegau asesu gyda’r disgyblion.  Maent yn rhaeadru’r wybodaeth hon yn llwyddiannus iawn i weddill y staff i sicrhau dealltwriaeth a chysondeb yn y ddarpariaeth.  O ganlyniad, mae disgyblion o oed ifanc iawn yn gwybod sut i symud eu dysgu i’r cam nesaf.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau’n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes.  Er enghraifft, maent yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau’r ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn.  Mae gwariant wedi ei gysylltu’n briodol â blaenoriaethau’r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro’n ofalus er mwyn sicrhau’r defnydd gorau ohono ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2019